

Hysbysiad Preifatrwydd

Sut rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion cyflogaeth a dibenion cysylltiedig.

Pwy ydym ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)¹ i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y system.² Amlinellir ein pwerau a'n dyletswyddau'n bennaf yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 (PRA) a rheoliadau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni ein cylch gwaith statudol rydym yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i gamymddwyn honedig a marwolaethau neu anafiadau difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Rydym hefyd yn penderfynu ar apeliadau o ymchwiliadau heddlu lleol i gŵyn. Defnyddiwn yr hyn rydym yn ei ddysgu o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona a hyrwyddo arfer da. Rydym yn cyflawni hyn trwy wneud datganiadau cyhoeddus, gwaith allgymorth â rhanddeiliaid, gwneud argymhellion sefydliadol, cyflawni ymchwil, dadansoddi a choladu ystadegau er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau thematig.

[I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud, ewch i'n gwefan.](#)

Pam ein bod yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r IOPC yn ymrwymedig i barchu a diogelu'ch preifatrwydd. Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut ac at ba ddiben(ion) y bydd yr IOPC yn casglu ac yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi i weinyddu ein perthynas gyflogaeth neu gytundebol â chi a gweithgareddau cysylltiedig. Os byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, rydych yn "destun data". Efallai eich bod yn wrthrych data at ddibenion yr hysbysiad hwn os ydych yn:

- gyflogai presennol
- gyflogai blaenorol
- ddarpar gyflogai
- staff asiantaeth
- brentis
- ymgynghorydd

¹Y Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gynt. Sefydlwyd yr IOPC ar 8 Ionawr 2018.

²Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

- fyfyrwr neu intern
- contractiwr
- secondai
- unigolyn sy'n cynrychioli darparwr gwasanaeth 3^{ydd} parti (er enghraifft cynrychiolydd o'n darparwyr Iechyd Galwedigaethol neu weinyddwyr ein cyflogres).

Mae'r IOPC yn casglu ac yn cadw data personol sy'n berthnasol i'ch cyflogaeth arfaethedig, presennol neu flaenorol a swyddogaethau cysylltiedig. Byddwn hefyd yn casglu ac yn cadw data unigolyn pan fyddwch yn gwneud gwaith gyda ni neu'n darparu eich gwasanaethau i ni o dan unrhyw drefniant cytundebol arall. Rydym yn defnyddio eich data personol lle bo angen er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau i chi fel ein cyflogai ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a all fod gennym fel cyflogwr neu o dan ein trefniant cytundebol. Byddwn yn rhannu'r data hyn â thrydydd partïon yn ôl yr angen (gweler yr adran "Â phwy y byddwn yn rhannu'ch data" isod).

Byddwn hefyd yn defnyddio data personol i gasglu ystadegau a chynnal dadansoddiadau yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol eraill megis ymateb i geisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Lle'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw.

Byddwn yn casglu eich data personol o nifer o wahanol ffynonellau gan gynnwys: chi, aelodau o'ch teulu, eich canolwyr, sefydliadau addysgol blaenorol neu gyfredol yr ydych wedi mynychu neu'n mynychu, eich cyflogwr blaenorol neu bresennol, darparwr gofal iechyd a / neu ddarparwr iechyd galwedigaethol, eich meddyg teulu, eich asiantaeth, eich Undeb, yr heddlu, asiantaethau diogelwch, adrannau'r llywodraeth, y Coleg Plismona, darparwyr gwasanaeth trydydd parti (gan gynnwys darparwyr ar gyfer ein platfform recriwtio, ein swyddogaeth AD mewnol systemau TG a gweinyddu ein cynllun talebau gofal plant), Civil Service Learning a darparwyr eraill systemau neu hyfforddiant rheoli dysgu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Disclosure Scotland, eich banc, CThEM a darparwr eich pensiwn.

Rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion cyflogaeth a dibenion cysylltiedig er mwyn:

- cadw cofnodion cyflogaeth cyfredol
- cynnig geirada
- at ddibenion recriwtio a dethol (gan gynnwys eich hawl i weithio a statws preswyllo)
- gweithredu'r gyflogres (gan gynnwys ad-dalu treuliau), gweinyddu'ch pensiwn ac unrhyw fuddion eraill fel y bo'n briodol, bydd hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth fel eich cyflog, dibynyddion, dynodwyr y llywodraeth fel eich rhif yswiriant gwladol a manylion eich cyfrif banc
- gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer darpar weithwyr a gweithwyr presennol a chael cyngor iechyd galwedigaethol
- cadw cofnod o'ch manylion cyswllt (gan gynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng)

- cynnal gweithdrefnau fetio cyn ac ar ôl cyflogaeth gan gynnwys gwiriad DBS a gweithdrefnau cliriad diogelwch eraill
- monitro defnydd staff o systemau'r IOPC yn unol â'n polisïau diogelwch, gan gynnwys mynediad i eiddo, defnyddio cyfrifiaduron a ffôn ac adrodd am achosion o dorri rheolau data neu weithgareddau amheus lle bo'n briodol
- monitro eiddo'r IOPC (gan gynnwys gan deledu cylch cyfyng) at ddibenion diogelu'r IOPC a'i weithlu rhag anaf, lladrad, twyll atebolrwydd cyfreithiol neu gamdriniaeth
- hwyluso, cynnal cofnodion cywir a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau rheoli gweithle'r IOPC (gan gynnwys salwch, gwyliau blynyddol a mathau eraill o wyliau, perfformiad gwael, disgyblu, cwynion, chwythu'r chwiban a diogelwch gwybodaeth)
- gweithredu a chadw cofnod o fathau eraill o absenoldeb megis absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu
- ymchwilio i gwynion difrifol a wneir yn erbyn staff yr IOPC. Rheolir cwynion o'r fath gan Uned Ymchwiliadau Mewnol (IIU) yr IOPC.³
- monitro cydymffurfiaeth staff â Chod Ymddygiad yr IOPC, y Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau a'r Gofrestr Lletygarwch a Rhoddion
- monitro presenoldeb mewn, a chyfranogiad mewn, digwyddiadau hyfforddi cysylltiedig â gwaith a rhai galwadau a chynadleddau fideo, yn fewnol, yn allanol ac ar-lein (er enghraifft trwy wefan Civil Service Learning)
- monitro data recriwtio a data cysylltiedig â pherfformiad megis amcanion, sylwadau, adborth, sgiliau a chymwyseddau, cymwysterau cysylltiedig â gwaith a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i Gofnodion Datblygiad Personol staff
- cynhyrchu ystadegau perthnasol ac i gynnal dadansoddiad ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb
- monitro ac adrodd ar gyfle cyfartal
- gwneud datgeliad priodol at ddibenion cyflogaeth ac achosion cyfreithiol cysylltiedig eraill
- i hyrwyddo'r IOPC trwy fideos a llenyddiaeth hyrwyddo
- i gyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol â chyflenwyr trydydd parti a darparwyr gwasanaeth
- hwyluso a phrosesu cwyn y byddwch yn ei gwneud o bosibl neu adborth y byddwch yn ei roi o bosibl am y cyswllt a gawsoch â ni
- hwyluso cyfathrebu rhwng gwahanol feysydd o'r sefydliad a lefelau rheoli

³Yn unol â Rheoliadau'r IPCC (Ymddygiad Staff) 2004

Y math o wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu a'i phrosesu

Data personol

Cyfeiria data personol at unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw wrtho. Gall y dull adnabod fod trwy wybodaeth yn unig neu ar y cyd â gwybodaeth arall.

Gall y data personol rydym yn eu casglu a'u prosesu amdanoch gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. e-bost a rhifau ffôn), rhyw, statws priodasol, dyddiad a man geni, cenedligrwydd, manylion pasbort, trwydded yrru, cyflogwr, cymwysterau addysgol a hanes, teitl swydd a hanes cyflogaeth, hanes pensiwn, a ydych ar restr wahardd yr heddlu, manylion teulu gan gynnwys eu perthynas â chi, eich perthynas ag eraill, delweddau ohonoch gan gynnwys ffotograffau a ffilm teledu cylch cyfyng, galwad a recordiadau fideo, data lleoliad neu ddynodwr ar-lein, manylion ariannol, rhif yswiriant gwladol, recriwtio a gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad.

Data categori arbennig

Mae gan gategoriâu penodol o ddata personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol pan y'u prosesir. Y categorïau hyn yw: data am eich iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig neu ddata sy'n ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gall y data categori arbennig rydym yn eu casglu a'u prosesu amdanoch gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: gwybodaeth feddygol (e.e. at ddibenion gwneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, asesiadau risg a gweithredu ein polisi salwch); eich hil neu darddiad ethnig a/neu eich credoau crefyddol a chyfeiriadedd rhywiol (e.e. ar gyfer monitro cyfle cyfartal, wrth gasglu ystadegau a chynnal dadansoddiadau at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ymateb i gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Lle'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddiennw.

Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth a ddarperir gan eich undeb llafur at ddibenion gweinyddu eich tanysgrifiad drwy'r gyflogres.

Fel rhan o gliriad diogelwch uwch sy'n ofynnol ar gyfer rhai gweithwyr, efallai y byddwn yn cael a phrosesu data categori arbennig yn ymwneud â'ch perthnasoedd personol.

Data camwedd troseddol

Mae gan brosesu data troseddol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol hefyd. Mae data camwedd troseddol yn cynnwys gwybodaeth am honiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol ac euogfarnau troseddol.

Nid yw'r IOPC yn cadw cofrestr gynhwysfawr o euogfarnau troseddol. Fodd bynnag, fel rhan o'n prosesau cyn cyflogi bydd pob person yn destun cliriad diogelwch a fydd yn cynnwys cael gwybodaeth am unrhyw euogfarnau troseddol neu rybuddion gennych chi a chan drydydd parti.

Bydd yr IOPC yn cadw'r wybodaeth hon yn ystod cyfnod eich cyflogaeth ac wedi hynny mewn rhai amgylchiadau.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data

Contract a rhwymedigaeth gyfreithiol

Os ydych yn gyflogai byddwn yn casglu ac yn prosesu eich data categori arbennig neu gamwedd troseddol, gan gynnwys eu darparu i drydydd parti, lle bo angen gwneud hynny er mwyn cyflawni ein contract cyflogaeth â chi neu lle mae gennym rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (er enghraifft, gwneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac oherwydd rhwymedigaeth o dan gyfraith cyflogaeth).⁴

Os byddwch yn gwneud gwaith â ni neu'n darparu eich gwasanaethau i ni o dan unrhyw drefniant cytundebol arall byddwn yn casglu ac yn prosesu eich data personol, categori arbennig neu gamwedd troseddol, gan gynnwys eu darparu i drydydd parti, lle bo angen gwneud hynny ar gyfer perfformio'r contract hwnnw.

Cydsyniad

Fel cyflogai presennol efallai y bydd adegau pan fydd angen ceisio eich caniatâd penodol i brosesu eich data personol, gan gynnwys data categori arbennig. Er enghraifft, pan fyddwch yn gofyn am ac yn defnyddio Dyfais Diogelwch Personol sydd â'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth am eich iechyd i ddarparwr gwasanaeth trydydd parti dyfeisiau o'r fath, bydd angen eich caniatâd.

Pryd bynnag y byddwn am brosesu eich data trwy ganiatâd, cyn rhoi eich caniatâd byddwch yn cael ffurflen gydsynio. Bydd hon yn esbonio:

- yr hyn y gofynnir i chi gytuno iddo a pham
- sut bydd eich data yn cael eu defnyddio
- enwau unrhyw reolwyr trydydd parti a fydd yn dibynnu ar y cydsyniad;
- eich hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd;
- y broses y gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl drwyddi
- pwy i gysylltu ag ef os oes gennych unrhyw bryderon am y defnydd o'ch data.

Angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd

Mae'n bwysig inni gyflogi'r unigolion cywir i gyflawni rhai rolau o fewn y busnes. Gall hyn olygu weithiau y byddwn yn gofyn i arbenigwr, nad yw'n cael ei gyflogi gan yr IOPC, o faes penodol, er enghraifft TG, diogelwch, neu gyllid, i eistedd ar banel cyfweld er mwyn helpu i wneud penderfyniad ar arbenigedd yr ymgeiswyr. mewn cyfweiliad. Rydym yn credu bod angen cael y fath arbenigwyr wedi'u defnyddio yn y ffordd hon gan ei bod yn sicrhau ein bod yn cyflogi'r unigolion cywir i helpu cynorthwyo a hwyluso ein tasgau fel awdurdod cyhoeddus.

Monitro Cyfle Cyfartal

⁴ Erthygl 6(1)(b); Erthygl 9(2)(b); Erthygl 10 GDPR. Adran 10(5) a Rhan 1(1), Atodlen 1 DPA 2018.

Gall data categori arbennig gael eu prosesu gennym ni pan fo hynny'n angenrheidiol at ddibenion nodi neu adolygu bodolaeth neu ddiffyg cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a nodir yn Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 8(2) o'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd y prosesu hwn â'r nod o alluogi cydraddoldeb i gael ei hyrwyddo neu'i gynnal ac nid yw'n cael ei wneud at ddiben mesur neu benderfyniadau mewn perthynas a gwrthrych data penodol. Ni fyd prosesu o'r fath yn cael ei wneud lle mae cydsyniad wedi cael ei wrthod neu os ydych wedi rhoi rhybudd nad ydych yn dymuno i'ch data gaeleu prosesu at y dibenion hyn. Dim ond pan na fydd yn debygol o achosi niwed neu drallod sylweddol i unigolyn y caiff ei gynnal. Bydd unrhyw ddata a ddefnyddir at y diben hwn yn ddiennw.

Buddiannau Cyfreithlon

Fel darpar gyflogai (cyn i chi ymrwymo i gontract cyflogaeth â ni) byddwn yn casglu ac yn prosesu eich data personol, categori arbennig neu gamwedd troseddol ar sail ein buddiannau cyfreithlon fel rhan o'r broses cyn cyflogi.

Mae rhai amgylchiadau lle byddwn yn prosesu data categori arbennig ar y sail bod gan yr IOPC ddiddordeb cyfreithlon mewn gwneud hynny. Er enghraifft, pan fyddwn yn casglu gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw mewn argyfwng a defnyddir monitro teledu cylch cyfyng yn adeilad y gweithle. Rydym o'r farn bod sicrhau bod gennym fanylion cyswllt mewn achos o argyfwng sy'n cynnwys ein staff a diogelu diogelwch ein hadeiladau a'r wybodaeth a gedwir ynddynt yn fuddiannau cyfreithlon.

Byddwn bob amser yn ceisio cydbwysu ein buddiannau cyfreithlon â hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrychau data.

Gallwch ddod o hyd i'n dogfen bolisi briodol yma. Mae'n rhoi rhagor o fanylion am ein dull o brosesu data categori arbennig a throseddau.

Â phwy y byddwn yn rhannu'ch data

At y dibenion cyflogaeth, cytundebol a chysylltiedig a nodir uchod bydd angen i ni rannu eich data personol â thrydydd partion. Y categorïau o bobl rydym yn rhannu'ch data personol â nhw yw:

- ein darparwr cyflogres
- ein darparwr pensiynau
- darparwyr budd-daliadau cysylltiedig â gwaith (er enghraifft gweinyddwyr ein cynllun talebau gofal plant)
- CThEM ac adrannau eraill y llywodraeth
- cyrff cyhoeddus
- ein darparwr gofal iechyd a/neu ein darparwr iechyd galwedigaethol
- eich banc (er enghraifft pan fyddwch yn gofyn i ni gynorthwyo â chais am forgais)
- Disclosure Scotland a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (at ddibenion diogelwch a gweithdrefnau fetio eraill)
- Uned Ymchwiliadau Mewnol (IIU) yr IOPC
- cynrychiolwyr y gweithle
- asiantaethau cyflogaeth

- cyflenwyr trydydd parti a darparwyr gwasanaeth (e.e. darparwyr ein Dyfeisiau Diogelwch Personol a'n systemau TG swyddogaeth AD mewnol)
- y cyhoedd (er enghraifft at ddibenion tryloywder bydd yr IOPC yn cyhoeddi manylion perthnasol uwch staff o'i Gofrestr Lletygarwch a Rhoddion a'i Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau).

Mae gofyn i ni rannu'ch data â thrydydd partïon pan fydd gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth â chyrrff cyhoeddus eraill ac adrannau'r llywodraeth er mwyn hwyluso defnyddio'u swyddogaethau statudol neu gyhoeddus eraill. Er enghraifft, i gynorthwyo â chyhoeddi gwŷs tyst neu lle mae'ch enw'n ymddangos ar ddeunydd yr ydym yn rhwym yn gyfreithiol i'w ddatgelu ar gyfer achosion troseddol neu achosion cyfreithiol eraill. Y categorïau o bobl rydym yn rhannu'ch data personol â nhw yw:

- crwneriaid
- Gwasanaeth Eryl y Goron
- llysoedd a thribiwnlysoedd
- cyrrff cyhoeddus (er enghraifft, y Coleg Plismona)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill
- cyrrff rheoleiddio neu ombwdsmyrn, gan gynnwys HMICFRS, HMIP, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- cynghorwyr proffesiynol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr

Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio

Mae ein proses recriwtio yn cynnwys rhywfaint o wneud penderfyniadau awtomataidd. Er enghraifft, bydd ymatebion penodol i gwestiynau fel eich hawl i fyw a gweithio yn y DU yn arwain at derfynu eich cais yn awtomatig.

Am faint y byddwn ni'n cadw'ch data

Mae gan IOPC amserlen cadw a gwaredu, sy'n rhestru'r data rydym yn eu cadw ac am faint. I weld am faint y byddwn yn cadw'ch data, gweler [ein hamserlen cadw a gwaredu yma](#).

Eich hawliau mewn perthynas â'r data rydym yn eu cadw

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'u cywiro os byddant yn anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i geisio cyfyngiadau i brosesu'ch data
- yr hawl i wrthwynebu i'ch data gael eu prosesu
- yr hawl i gael eich data wedi'u dileu

- yr hawl i gael eich hysbysu am sut mae'ch data yn cael eu prosesu
- hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau wedi'u hawtomeiddio a chcludadwyedd data

Dylech ein hysbysu o unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth fel y gallwn fod yn hyderus bod y data rydym yn eu cadw amdanoch yn gywir.

[I ddeall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w defnyddio, gweler ein gwefan.](#)

Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Y rheolydd data sydd â'r rheolaeth gyffredinol dros ddiben a'r modd rydym yn casglu a phrosesu data personol.

Mae gan yr IOPC Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ddefnyddio'ch hawliau data neu'r ffordd rydym yn casglu, yn trin neu'n prosesu'ch data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy'r dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan neu trwy anfon e-bost dpo1@policeconduct.gov.uk

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9yb a 5yh, dydd Llun i ddydd Gwener.

Eich hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd rydym wedi prosesu'ch data personol, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

www.ico.org.uk

Tel: 0303 123 1113

casework@ico.org.uk

Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os byddwch yn dymuno rhoi adborth i ni neu gwyno am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n Huned Ymchwilio Mewnol naill ai trwy [dudalen gyswilt ein gwefan](#) neu trwy anfon e-bost at IIU@policeconduct.gov.uk.

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu adael neges unrhyw bryd ar 0207 166 3261.

Adolygu'r hysbysiad hwn

[Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gallai gael ei ddiwygio. Ewch i'n gwefan yma i wirio am unrhyw ddiweddariadau.](#)